O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2634 (Cy. 286)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llys-wen, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*18 Hydref 2012*
Yn dod i rym	*29 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llys-wen, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 29 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A470 yn Llys-wen yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A479 yn Llys-wen i bwynt 100 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.